

“Beth am stori?”

“...heb ddameg ni fyddai'n llefaru dim wrthynt.” (adn.34)

Beth am ddarllen Marc 4:21–34 ac yna myfyrio

Wedi oes o fyfyrion ar y natur ddynol, rwyf wedi dod i'r casgliad fod pobl yn awchu am storïau yn union fel maen nhw'n awchu am fwyd a diod. Does dim sy'n well gan blant ar amser gwely, fel y gwyddoch, na chael rhywun i ddweud stori wrthyn nhw. Heno, mewn miliynau o gartrefi ar hyd a lled y byd, bydd rhieni yn clywed eu plant yn gofyn wrth iddyn nhw gael eu rhoi yn eu gwllâu: “Wnei di ddweud stori wrthaf fi?”

Mae'r awydd am gael rhywun i adrodd stori wrthym cyn hyned â'r ddynoliaeth ei hun. A dydyn ni ddim yn colli'r awydd yma pan ddown yn oedolion. Yn yr ystyr yma dydyn ni byth yn tyfu i fyny mewn gwirionedd. Sonia André Malraux yn ei lyfr *Anti Memoirs* am gydnabod iddo, hen offeiriad gwledig profiadol, a ddywedodd: “Does mo'r fath beth â pherson wedi tyfu i fyny. Plant ydym ni i gyd yn y bôn. Mae rhai ohonom yn gwybod sut i guddio'r ffaith yn well nag eraill.” Fe wyddai Iesu o'r gorau beth oedd cryfder stori ac fe'i defnyddiodd i'w lawn effaith. Mae geiriau ein testun heddiw yn gwneud hynny yn eglur iawn. Aralleiria Eugene Paterson yr adnod hon yn *The Message* fel hyn: “Doedd o byth heb stori pan siaradai.”

Un o'r rhesymau pam y defnyddiodd Iesu storïau oedd ei fod yn gwybod cymaint o arbenigwyr oedd dynion a merched ar eu harfogi eu hunain rhag derbyn gwirionedd. Dydy'r natur ddynol ddim yn newid. Pan fo llawer ohonom yn mynd i wasanaeth rydym yn gwrando ar bregeth o'r tu ôl i wal ymenyddol. Rydym ni'n wylriadwrs rhag i unrhyw beth a allai ein herio, groesi ein hamddiffynfeydd a chyffwrdd ein cydwybod. Ond rydym ni'n wahanol wrth wrando ar storïau. Mae stori'n cael rhwydd hynt i hedeg i mewn yn ddilyffethair i ganol y meddwl, a chaiff y gwirionedd sy'n cael ei fynegi ynddi fynediad llawn cyn bod neb yn dyfalu ei phwrpas. Mae stori'n cyffwrdd y cydwybod nes ei fod yn cael ei bigo mewn cadarnhad o'r pwynt. Codir baner yr ildio ac mae'r enaid wedi ei ddarostwng.

Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

Eseia 5:1–7;

Math. 21:33–46

Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Pa wirionedd fwriadwyd i stori Eseia ei gyfleu?
2. Beth sy'n dangos i stori Iesu groesi amddiffynfeydd ei wrandawyr?

Gweddi O Dad, rwy'n gweld dy fod wedi rhoi awch ynof am stori. Helpa fi i werthfawrogi mwy y ffaith yma, a gad i mi weld sut i ddefnyddio storïau yn fy ngweinidogaeth i eraill. Yn enw Iesu. Amen.